



Llun: Pablo Tosco / Oxfam

Aduno teuluoedd sy'n ffoduriaid yng Nghymru **beth y gallwn ni ei wneud?**

Nodyn Briffio Cyd-Asiantaethol • Chwefror 2018



Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, mae'r byd yn wynebu un o'r argyfyngau dadleoli mwyaf. Yn 2016, gwelwyd y nifer mwyaf erioed o achosion o ddadleoli dan orfod. Mae mwy na 65 miliwn o bobl¹ – eu hanner yn blant – wedi cael eu gorfodi o'u cartrefi oherwydd gwrthdaro, trais ac erledigaeth.

Mae ymfudo dan orfod yn gwahanu teuluoedd. Mae'n tynnu plant oddi wrth eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau, yn rhannu brodyr a chwiorydd, yn gorfodi partneriaid i fyw ar wahân, ac yn dinistrio rhwydweithiau teuluoedd estynedig. Er bod cyfraith ryngwladol yn datgan bod gan deuluoedd hawl i gael eu hamddiffyn,² maent yn cael eu gorfodi ar wahân wrth iddynt ffoi neu gael eu dadleoli, sy'n ychwanegu at eu dioddefaint. Yn aml, aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid yw'r unig ffordd o sicrhau y gellir gwireddu hawl ffoaduriaid i undod teuluol. Nid yn unig y mae aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid yn ffordd o aduno teuluoedd sydd wedi cael eu rhannu, ond mae hefyd yn galluogi llywodraethau i gynnig ffordd ddiogel a chyfreithiol i ffoaduriaid ddianc rhag perygl, a chael eu diogelu rhag gwrthdaro mewn gwledydd megis Syria, Swdan ac Affganistan.

Mae Rheolau Mewnfudo y DU yn rhan bwysig o'r darlun o ran aduno teuluoedd, ac yn allweddol i sicrhau nad yw pobl yn gorfod peryglu eu bywydau wrth deithio i Ewrop. Mae Rhan 11 o Reolau Mewnfudo y DU³ yn datgan bod gan oedolion sy'n cael caniatâd ffoadur neu ddiogelwch dyngarol yn y DU hawl i noddi aelodau agos o'u teulu i ddod i fyw gyda nhw yma.⁴ Fodd bynnag, mae yna nifer o gyfyngiadau o ran pa aelodau o'r teulu sy'n gymwys ar gyfer aduniad o'r fath. O ran oedolion sy'n ffoaduriaid yn y DU, dim ond partneriaid⁵ a phlant dibynnol dan 18 oed, a oedd yn rhan o'r uned deuluol cyn i'r ffoadur ffoi, sydd fel arfer yn dod o dan y diffiniad o 'deulu'. Gall y rheolau fod yn eithaf hyblyg: o dan amgylchiadau eithriadol, gall perthnasau eraill gael caniatâd y tu allan i'r rheolau, yn ôl disgrisiwn y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, dros

y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd bod llai o fisâu aduno teuluoedd yn cael eu rhoi y tu allan i'r rheolau. O fis Ionawr i fis Medi, dim ond 49 o fisâu a gyhoeddwyd y tu allan i'r rheolau mewnfudo mewn achosion o aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid.⁶ Mae'r cyfyngiadau ar y broses o roi fisâu i ymgeiswyr o wledydd y mae ffoaduriaid yn dianc ohonynt yn ffactor sy'n cyfrannu llawer at wahanu teuluoedd sy'n ffoaduriaid.

Mae llawer o'r rhai sy'n gwneud cais am aduniad teuluol yn dod o wledydd sydd wedi'u rhwygo gan ryfel. Gall y diffiniad cyfyng o 'teulu', a ddefnyddir wrth benderfynu ar geisiadau i aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid, olygu bod ceisiadau rhai aelodau o'r teulu am fisâu i'r DU yn cael eu cymeradwyo, tra bo ceisiadau aelodau eraill o'r un teulu yn cael eu gwrthod. Gall hyn olygu bod teuluoedd yn wynebu penderfyniadau amhosibl: dod â rhai aelodau o'r teulu i ddiogelwch, ond gadael rhai eraill ar ôl, a'r rheiny wedyn yn gorfod byw mewn mwy o berygl fyth gan eu bod, o bosibl, wedi'u hynysu ac ar eu pen eu hunain mewn amgylchiadau peryglus; neu roi bywydau eu hanwyliaid yn nwylo smyglwyr, mewn ymgais enbyd i fod gyda'i gilydd yn y DU.

Hefyd, mae toriadau i gymorth cyfreithiol, gwasanaethau cynghori annigonol, a diffyg dogfennaeth yn golygu bod y system bresennol yn ei gwneud hi'n anodd iawn i deuluoedd sy'n ffoaduriaid aduno yn y DU, ac mae'r broses yn aml yn cymryd nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu bod y gobaith o gael eu haduno ag aelodau o'r teulu yn parhau'n freuddwyd bell i lawer o ffoaduriaid, sy'n cael effaith ddifrifol ar eu gallu i integreiddio ac i ailadeiladu eu bywydau yma.

Pa rôl sydd gan Gymru i'w chwarae?

Nid yw'r cyfrifoldeb am fewnfudo a lloches wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac, yn lle hynny, mae'n gweithredu deddfwriaeth gyfyngol a gyflwynwyd gan lywodraethau olynol y DU. Serch hynny, fel cenedl sydd â chyfrifoldeb byd-eang, ac sy'n gweithio tuag at fod yn Genedl Noddfa⁷, mae gan Gymru rôl i'w chwarae wrth gefnogi'r bobl hynny sydd wedi cael eu gorfodi i ffoi. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am lawer o feysydd sy'n cael effaith sylweddol ar fywydau pobl sy'n ceisio lloches. Mae hyn yn cynnwys iechyd, tai, addysg, cludiant, gwasanaethau cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Hefyd, mae gan Aelodau Seneddol Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth graffu ar ddeddfwriaeth newydd, yn ogystal â deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, ac wrth helpu etholwyr sydd â phroblemau, gan gynrychioli eu pryderon yn San Steffan.

Mae cyfrifo union nifer y ffoaduriaid yng Nghymru yn anodd oherwydd unwaith y caiff caniatâd ei roi, mae pobl yn rhydd i symud i bob cwr o'r DU. Fodd bynnag, gwyddom fod pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi cymryd rhan yng Nghynllun Llywodraeth y DU ar Adleoli Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed a, hyd yma, bod 608 o ffoaduriaid o Syria wedi cael eu hadleoli yng Nghymru trwy'r cynllun hwn.⁸ Yn adroddiad Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR), 'Towards Integration'⁹, nodwyd bod ailuno teuluoedd yn fater allweddol i bobl o Syria sy'n cael eu hailgartrefu trwy'r cynllun yn y DU. Mae data hyd at fis Medi 2017 yn dangos bod yna 2,831 o bobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru, ynghyd â nifer o bobl sydd â statws ffoadur.¹⁰ Dim ond pobl sydd â chaniatâd ffoadur neu ddiogelwch dyngarol yn y DU a all wneud cais am aduniad teuluol.

Mae'r papur hwn yn seiliedig ar arbenigedd sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi pobl sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys y rheiny y mae'r broses o wahanu teuluoedd yn effeithio arnynt.

Effeithiau gwahanu teuluoedd ar deuluoedd sy'n ffoaduriaid

Pan fo teuluoedd sy'n dyheu am gael bod gyda'i gilydd yn cael eu gwahanu, gallant brofi trawma sylweddol a niwed parhaol i'w lles.¹¹ Mae hyn yn arbennig o wir am ffoaduriaid, sydd eisoes yn agored i niwed ac wedi'u hynysu ar ôl cael eu gorfodi i ffoi rhag gwrthdaro, erledigaeth ac achosion o dorri hawliau dynol.

I'r rheiny sy'n ceisio lloches, mae materion yn ymwneud ag aduno teuluoedd yn dechrau o'r eiliad y maent yn cyrraedd y DU, hyd yn oed cyn iddynt gael statws ffoadur. Mae cael eu gwahanu am gyfnod hir oddi wrth aelodau'r teulu yn achosi problemau mawr i'r rheiny sy'n ceisio lloches. Mae lefel yr euogrydd y maent yn aml yn ei deimlo am orfod gadael aelod o'r teulu gartref, a all fod mewn ardal rhyfel, neu yn wynebu'r erledigaeth y maent wedi dianc rhagddi (gan gynnwys yr ofn y bydd eu partneriaid priod yn cael eu harestio yn eu lle, er enghraifft), yn gallu bod yn annioddefol. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfreithiol Asylum Justice¹² fod yr euogrydd yn gallu ysu pobl yn llwyr.

Mae tystiolaeth yn dangos bod aduno teuluoedd yn cynnig manteision i deuluoedd sy'n ffoaduriaid ac i gymunedau sy'n lleetya.¹³ Mae Cyfarwydddeb yr UE ar yr hawl i ailuniad teuluol yn datgan bod undod teuluol yn gallu helpu i hwyluso'r broses integreiddio, creu sefydlogrwydd cymdeithasol, a hyrwyddo cydlyniant economaidd a chymdeithasol. Gall cydlyniant cymunedol gael ei lesteirio'n ddifrifol pan fo teuluoedd yn cael eu gorfodi i wahanu, sy'n lleihau gallu'r unigolion dan sylw i ymdopi, gyda diffyg cysylltiadau cymdeithasol yn ychwanegu at hynny. Codwyd y mater ynghylch aduno teuluoedd yn ymchwiliad diweddar y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ffoaduriaid, 'Refugees Welcome?', gan gynnwys yr effaith y mae hyn yn ei chael ar y rhai sy'n byw yn y DU.¹⁴ Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gall aduno'n llwyddiannus ag aelodau'r teulu fod yn hwb sylweddol i integreiddio tymor hwy, ond y gall rhwystrau i aduno teuluoedd ddod yn rhwystr i integreiddio.

Dangosodd ymchwil ddiweddar gan Oxfam a'r Cyngor Ffoaduriaid¹⁵ nad oedd teuluoedd sydd wedi'u gwahanu yn y DU yn gallu canolbwyntio ar weithgareddau sy'n hanfodol i integreiddio, megis dysgu Saesneg, gan eu bod yn poeni gormod am aelodau'r teulu, yn teimlo'n euog, neu'n ymdopi â phroblemau iechyd meddwl. Roedd straen a phryder yn amlwg iawn ymhlith rhai teuluoedd sydd wedi gwahanu. At hynny, roedd rhai ffoaduriaid wedi cael eu gwthio i dlodi ar ôl gwneud aberth ariannol sylweddol i anfon arian at aelodau'r teulu dramor.

Rhwystrau i aduniad teuluol ar gyfer ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru

1. Diffiniad cyfyngedig o 'teulu'

Mae'r rheolau sy'n pennu pa aelodau o'r teulu a all gael eu noddi i ymuno â pherthnasau sydd â chaniatâd ffoadur yn y DU, wedi'u hamlinellu yn y Rheolau Mewnfudo. Mae'r diffiniadau yn gyfyng iawn. O ran oedolion sy'n ffoaduriaid yn y DU, dim ond partneriaid a phlant dibynnol dan 18 oed sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad o deulu. Mae hyn yn eithrio neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd sy'n oedolion, a phlant 18 oed a throsodd. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE, nid yw'r DU yn caniatáu i blant sy'n ffoaduriaid digwmni ddod â hyd yn oed aelodau agosaf eu teulu i fyw gyda nhw yn y DU, gan felly eu condemnio i fyw ar wahân i'w teulu am weddill eu hoes.

O ganlyniad, mae ffoaduriaid yn wynebu dewis anodd: aros wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd mewn sefyllfaoedd ansicr, anniogel, yn eu gwledydd cartref, neu yn eu hymyl, neu fentro ar deithiau peryglus i gyrraedd anwyliaid sydd eisoes yn byw mewn diogelwch. Mae rhai teuluoedd yn gorfod penderfynu a ddylent adael rhai aelodau o'r teulu ar ôl, boed yn fam oedrannus yn Syria neu'n ferch 19 oed mewn ardal o Affganistan sydd o dan reolaeth y Taliban, penderfyniad sy'n amhosibl. I'r ffoaduriaid hynny sydd eisoes yn byw mewn diogelwch yn y DU, gall cael eu gorfodi i wahanu oddi wrth eu teuluoedd, a phryder parhaus am eu lles, fod yn ddinistriol, gan eu rhwystro rhag ailadeiladu eu bywydau, a thanseilio eu gallu i integreiddio'n llwyddiannus i'w cymunedau newydd.

Blwch 1: Cafodd Rihana ei hadsefydlu o Libanus i Gymru, gyda'i gŵr a'u pedwar plentyn, a hynny trwy'r Cynllun Adleoli Unigolion Agored i Niwed.

Mae gen i dair chwaer, sy'n dal i fyw yn Libanus gyda'u teuluoedd. Mae fy mam, fy mrawd iau, a'm chwaer ieuengaf hefyd yn byw yno, ond rydym wedi gadael ein tad ar ôl; mae ef yn dal yn Jouber, Damascus. Mae'r tŷ wedi cael ei fomio, felly mae'n gorfod byw ar yr islawr

Mae'r sefyllfa yn hynod o ansicr yn Libanus a Damascus, ac mae hynny'n bryder mawr i ni i gyd.

Rydyn ni hefyd yn pryderu'n fawr am iechyd fy mrawd iau, a hynny am fod ganddo broblem gyda'r chwargen adrenal, sydd wedyn yn effeithio ar lefelau ei hormonau. Mae'n anodd dod o hyd i feddyginiaeth iddo yn Libanus. Er mwyn fforddio'r feddyginiaeth, mae'n rhaid iddo weithio 14 awr y dydd.

Dim ond gofal iechyd brys sydd ar gael i'r aelodau o'r teulu sydd ar ôl yn Libanus. Mae popeth arall yn breifat, ac mae'n rhaid talu amdano. Nid yw eu plant hyd yn oed yn cael mynd i'r ysgolion yn Libanus. Os ydynt am gael eu haddysgu, mae'n rhaid iddynt fynd i ysgolion preifat, ac mae'n rhaid talu am y rhain hefyd.

Mae bod ar wahân oddi wrth anwyliaid wedi achosi llawer o bryder a gofid. Mae'n effeithio arnom yn feddyliol gan ein bod bob amser yn meddwl am ein teulu estynedig a'r anawsterau y mae'n debyg eu bod yn gorfod eu hwynebu.

2. Cymorth Cyfreithiol ar gyfer aduno teuluoedd

Cafodd cyngor a chynrychiolaeth mewn perthynas ag aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid ei ddileu o gwmpas cymorth cyfreithiol ym mis Ebrill 2013 yng Nghymru a Lloegr,¹⁶ a hynny am ei fod yn cael ei ystyried yn fater mewnfudo syml nad yw'n galw am gyngor cyfreithiol arbenigol. Fodd bynnag, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo (OISC), sy'n rheoleiddio cynghorwyr mewnfudo, wedi pennu na chaiff cynghorwyr lefel 1 OISC roi cyngor ar geisiadau am aduniad teuluol sy'n gofyn am gymhwysedd lefel uwch (lefel 2 neu 3 OISC), gan dynnu sylw at anghysondeb ym mholisi'r llywodraeth. Mae'n drosedd i rywun roi cyngor ar fewnfudo oni bai fod ei sefydliad yn cael ei reoleiddio gan OISC.

Gan nad oes cymorth cyfreithiol ar gael mwyach ar gyfer gwneud ceisiadau am aduniad teuluol, nac ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod fisa aduno teuluoedd, mae aduniad teuluol bellach yn amhosibl i lawer o ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru. Mae ymchwil gan y Groes Goch¹⁷ yn dangos bod gwaith achos ar gyfer aduno teuluoedd yn gallu bod yn gymhleth iawn. Heb gynrychiolaeth gyfreithiol, lle mae cyfreithiwr cymwysedig yn paratoi ac yn cyflwyno'r cais a'r dogfennau ategol hanfodol, mae nifer sylweddol o geisiadau am aduniad teuluol yn wynebu cael eu gwrthod ar sail dechnegol. Gall y diffyg cymorth cyfreithiol achrededig a fforddiadwy hwn (oherwydd y toriad i Gymorth Cyfreithiol a diffyg modd ariannol i dalu am gyfreithiwr) olygu bod aelodau'r teulu'n cael eu gadael dramor mewn sefyllfaoedd peryglus ac mewn perygl o ecsbloetiaeth a niwed.

Mae yna fwlch sylweddol yn y ddarpariaeth o gynghorwyr cyfreithiol arbenigol achrededig ar lefel 2 a 3 OISC yng Nghymru. Mae Rhaglen Hawliau Ceiswyr Lloches newydd Llywodraeth Cymru (a gyflawnir trwy bartneriaeth rhwng saith sefydliad yng Nghymru¹⁸) yn anelu at gynyddu'r cymorth a'r eiriolaeth a roddir i geiswyr lloches yng Nghymru. Mae'r Rhaglen hefyd yn darparu cyllid ar gyfer un swydd Swyddog Cyfreithiol newydd, i ymgymryd â gwaith achos cyfreithiol ar Lefel 3 OISC, a hynny trwy'r elusen Asylum Justice. Er bod hynny wedi'i groesawu'n fawr (bydd yn dyblu nifer y staff sy'n gyflogedig gan Asylum Justice o un i ddau), ni fydd yn llenwi'r bwlch sylweddol sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru ar gyfer ffoaduriaid y mae arnynt angen cymorth ar frys i wneud cais am aduniad teuluol neu i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod fisa aduno teuluoedd. Asylum Justice yw'r unig sefydliad yng Nghymru sy'n darparu cynrychiolaeth a chynghor cyfreithiol am ddim ar Lefel 3 OISC i geiswyr lloches a ffoaduriaid, ac aelodau eu teuluoedd, nad oes ganddynt hawl i gael cymorth cyfreithiol ar hyn o bryd.

Heb unrhyw allu i gael cymorth cyfreithiol, a gallu cyfyngedig i gael cyngor cyfreithiol am ddim ar lefel 2/3 OISC, mae ffoaduriaid yn wynebu'r posibilrwydd o orfod talu £600-£800 am gyngor cyfreithiol ar geisiadau

am aduniad teuluol. Pe byddai'r ceisiadau am fisâu yn cael eu gwrthod, byddai'n rhaid i'r ymgeisydd dalu hyd at £1,000 ar gyfer cynrychiolaeth breifat yn yr apêl ddilynol, a hynny ar ben y ffioedd llys am gyflwyno'r apêl/apeliadau yn y llys (sy'n £140, ar hyn o bryd, am bob aelod o'r teulu sy'n cael ei wrthod).

3. Yr amser y gall ei gymryd i brosesu ceisiadau am aduniad teuluol

Pan fyddant yn cyrraedd y DU, bydd rhai pobl eisoes wedi bod ar wahân i'w teulu am gyfnod estynedig o amser, ac ni fyddant yn gallu gwneud cais am fisa aduno teuluoedd nes eu bod wedi cael hawl i loches. Os trwy apêl yn unig y caniateir lloches (oherwydd ansawdd gwael y broses benderfynu gychwynnol), yna bydd y cyfnod hwn yn hwy o lawer, a hynny oll cyn y gall yr unigolyn hyd yn oed ddechrau gwneud cais am fisa aduno teuluoedd. I leihau gofid, mae'n hanfodol bod ffoaduriaid yn cael mynediad ar unwaith i weithdrefnau aduno teuluoedd a chynrychiolaeth gyfreithiol, er mwyn eu galluogi i fyw bywyd teuluol arferol gyda'i gilydd yn ddiogel.

Hyd yn oed ar ôl i unigolyn gyflwyno cais am fisa aduno teuluoedd yn y llysgenhadaeth, mae'r broses benderfynu yn cymryd o leiaf dri mis, a hynny oherwydd polisi ac amserlenni Fisâu a Mewnfudo y DU. Os gwrthodir cais am fisa aduniad teuluol, mae yna hawl ar hyn o bryd i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, ond mae angen i'r apêl gael ei chyflwyno cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r penderfyniad ddod i law. Serch hynny, ni fydd yr apêl ei hun yn cael ei chlywed yn y llysoedd mewnfudo am tua 12 mis, a hyd yn oed os bydd ymgeisydd yn ennill ei apêl, bydd o leiaf ddau neu dri mis arall eto wedi mynd heibio cyn y caiff y fisa honno ei rhoi. Mae'r oedi cyn gwrando ar yr apêl yn rhannol oherwydd y toriadau i gyllid llysoedd, ond hefyd oherwydd polisi'r Llys i gyflymu'r broses o wrando ar apeladau yn erbyn penderfyniadau i wrthod lloches i bobl sydd eisoes yn y DU, gyda'r hyn a elwir yn apeladau 'clirio mynediad' (sy'n cynnwys apeladau aduno teuluoedd ac apeladau a gyflwynir gan unrhyw un nad yw eisoes yn y DU) bob amser yn cael eu gohirio. Mae'r amser aros annerbyniol o hir hwn yn achosi rhagor o ddiodefaint a gofid i deuluoedd sydd wedi'u gwahanu.

Hyd yn oed pan wrandewir ar apêl, gall fod yn anodd iawn ennill apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod fisa aduno teuluoedd, a hynny am fod y rhan fwyaf o apeladau'n cael eu hennill neu eu colli ar sail y dystiolaeth a gyflwynir gyda'r cais. Yn anffodus, yn achos apeladau aduno teuluoedd, mae'r barnwr mewnfudo fel arfer wedi'i wahardd rhag ystyried tystiolaeth newydd neu well tystiolaeth i ddangos bod aelod o'r teulu'n bodloni holl ofynion perthnasol y Rheolau Mewnfudo. Os oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y cais cychwynnol am fisa yn ddiffygiol neu'n annigonol (fel arfer am nad oedd gan yr ymgeisydd gynrychiolaeth gyfreithiol ac am nad oedd yn deall yr hyn yr oedd ei angen), yna, yn aml, mae hyn yn golygu na ellir unioni'r dystiolaeth honno yn ystod yr apêl (mae yna rai eithriadau nodedig). Mae'r penderfyniad y mae'n rhaid i ymgeisydd ei wneud

wedyn – sef a ddylai apelio yn erbyn penderfyniad neu, yn lle hynny, gyflwyno cais newydd sy'n cynnwys gwell tystiolaeth – yn un hollbwysig, ond yn un sy'n anodd iawn ei wneud heb gyngor arbenigol. Mae gwneud y penderfyniad anghywir ynghylch hyn yn gallu costio cannoedd o bunnau mewn ffioedd llysoedd i hyd yn oed cleient sydd heb gynrychiolaeth (os oes ganddo deulu mawr), ond, yn bwysicach, gallai hefyd estyn y cyfnod y mae'r teulu wedi'i wahanu o leiaf 12 neu 18 mis, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd aelodau'r teulu sy'n agored i niwed yn gorfod aros mewn ardaloedd rhyfel neu sefyllfaoedd peryglus eraill. Yn syml, os bydd rhywun yn dilyn apêl sydd heb fawr ddim siawns o lwyddo, a hynny oherwydd diffygion yn y dystiolaeth yn y cais cychwynnol, bydd yn gwastraffu ymhell dros flwyddyn yn aros am y gwrandawriad a'r penderfyniad, a hynny mewn apêl y mae'n debyg na allai fod wedi ei hennill yn y lle cyntaf. Ar y llaw arall, gyda chynrychiolaeth a chynghor cyfreithiol da, gallai gyflwyno cais newydd, sy'n cynnwys gwell tystiolaeth, ymhen ychydig wythnosau yn dilyn penderfyniad i wrthod cais am fisâu ar gyfer aelodau'r teulu.

4. Diffyg dogfennau

Hyd yn oed i bobl sy'n bodloni'r diffiniad cul sy'n ofynnol ar gyfer cais am aduniad teuluol, mae materion biwrocraidd, yn enwedig y baich o brofi trwy ddogfennau swyddogol, yn rhwystr. Mae angen i ffoaduriaid sy'n gwneud cais am aduniad teuluol ddarparu dogfennau i brofi pwy ydynt, er enghraifft tystysgrifau geni, cardiau adnabod cenedlaethol a phasbortau, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol o berthnasoedd teuluol, er enghraifft cyfriflenni cyfrifon banc ar y cyd neu dystysgrifau priodas. Gall hyn fod yn rhwystr sylweddol i'r rheiny sydd wedi ffoi am eu bywydau heb ddogfennau. Hefyd, rhaid i ymgeiswyr brofi nid yn unig fod eu priodas neu berthynas yn ddiffuant, ond hefyd ei bod wedi para trwy'r cyfnod yn dilyn ymadawriad y noddwr o'r wlad wreiddiol. O ystyried yr amgylchiadau y mae'r noddwr ac aelodau ei deulu gartref yn aml yn byw ynddynt yn ystod cyfnod o'r fath, mae'n amlwg y gall hyn fod yn anodd iawn ei wneud, ac i ymgeiswyr sydd heb gynrychiolaeth, mae'n gwbl afrealistig disgwyl iddynt wybod pa dystiolaeth a ddisgwylir ganddynt mewn perthynas â hyn. Yn anffodus, nid yw'n anghyffredin i gais gael ei wrthod ar y sail nas ystyrir bod y briodas neu'r berthynas yn 'bodoli', er y derbynnir ei bod yn ddiffuant. Eto, gyda'r cyngor a'r gynrychiolaeth iawn, gellir, yn aml, unioni'r problemau tystiolaethol hyn yn eithaf hawdd cyn i'r cais gael ei gyflwyno.

Blwch 2: Mubarak. Cafodd statws ffoadur chwe mis ar ôl cyrraedd y DU, ac yna cymerodd chwe mis arall i ailuno yn y DU â'i wraig a'u pedwar plentyn ifanc.

Mae'n disgrifio'r chwe mis heb ei deulu yn 'ofnadwy', gyda'r cyfathrebu yn digwydd yn bennaf trwy WhatsApp – 'nid y ffordd orau o yllio eich plant yn tyfu' – ac mae'n teimlo ei fod wedi colli blwyddyn o'u bywydau. Roedd ei deulu yng Ngwlad Iorddonen, ar ôl dianc rhag y rhyfel yn Syria, 'lle gallech weld y bomiau'n disgyn bob dydd'.

Cafodd ei gais am aduniad teuluol ei gefnogi gan y Groes Goch. Roedd arian yn broblem, yn arbennig costau teithio ei wraig a'i blant, ac mae'n diolch i feddyg o Wlad Iorddonen, sy'n byw yng Nghymru, a dalodd am y tocynnau teithio ar ei ran. Heb y cymorth hwn, ni allai fod wedi fforddio talu'r costau teithio

Tynnodd sylw at un peth cadarnhaol, sef bod prawf anffurfiol o'i briodas wedi bod yn dderbyniol, er nad oedd gan ei wraig Na'i blant basbortau na dogfennau swyddogol. Heb hyn, yr unig ddewis arall fyddai wedi bod iddo roi'r gorau i'r syniad o aduniad teuluol a dychwelyd at ei deulu yn y sefyllfa fregus yng Ngwlad Iorddonen, neu ddod o hyd i swm amhosibl o arian i lwgrwobrwyo swyddogion yng Ngwlad Iorddonen er mwyn prynu pasbortau ansyddogol – y dewis cyntaf fyddai wedi bod yr opsiwn mwyaf tebygol.

Hoffai weld aduniad teuluol yn cael ei ymestyn i gynnwys rhieni – nid yw wedi gweld ei fam a'i dad ers pedair blynedd, ac er eu bod yn cyfathrebu pan y gallant, nid yw'r Rhyngwlad yn Syria yn ddibynadwy.

5. Cyllid

Hyd yn oed os yw cais am aduniad teuluol yn llwyddiannus, ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i sicrhau y telir am faterion ymarferol megis hediadau, er mwyn galluogi'r aduniad i ddigwydd. Mae Gwasanaethau Adfer Cysylltiadau Teuluol y Groes Goch yn cynnig rhaglen cymorth teithio ar sail prawf modd, mewn partneriaeth â'r Sefydliad Ymfudo Rhyngwladol, a all helpu i dalu costau teithio aelodau teuluoedd sy'n ffoaduriaid sy'n dal i fod dramor, ond sydd wedi cael fisa aduno teuluoedd i ddod i'r DU. Rhwng mis Medi 2016 a mis Medi 2017, rhoddodd y Groes Goch gymorth ariannol i dalu costau teithio 32 o achosion cymorth teithio o Gymru ar gyfer perthnasau a oedd wedi cael eu derbyn gan y Swyddfa Gartref o dan y trefniadau i aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid. Roedd y noddwyr (aelod o'r teulu sydd â chaniatâd ffoadur yn y DU) yn yr holl achosion wedi mynd i'r swyddfeydd yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe i gyflwyno eu ceisiadau. Roedd mwyafrif yr achosion a gynorthwywyd wedi'u cyflwyno yn swyddfa Caerdydd.

Blwch 3: Wahiba o Swdan, sydd wedi cael ei haduno â'i gŵr yng Nghymru.

Roedd ei gŵr yn baentiwr ac yn yrrwr yn Khartoum, a gadawodd oherwydd problemau gyda'r llywodraeth. Cwblhaodd Wahiba astudiaethau mewn gwyddoniaeth labordy meddygol. Cafodd ei gŵr statws yn y DU 16 diwrnod ar ôl iddo gyrraedd. Yna cymerodd bedair blynedd iddi gael ei haduno ag ef. Maent yn eu cynnal eu hunain gyda'r arian y mae'r gŵr yn ei ennill fel glanhawr.

Y rheswm pam y cymerodd bedair blynedd i'r pâr aduno oedd er mwyn iddynt gynilo'r arian yr oedd ei angen i dalu cyfreithwyr yn y DU ac yn Swdan (i gael dogfennau) a chostau teithio. Yn ogystal â chynilo arian ar gyfer y pethau hyn, yn ystod y pedair blynedd roedd y gŵr hefyd yn anfon arian yn ôl at ei wraig (tua £50 yr wythnos) i fyw.

Mae Wahiba a'i gŵr yn ddiolchgar eu bod wedi priodi cyn iddo ddod i'r DU gan eu bod yn adnabod partneriaid sy'n teimlo na fyddant byth yn gallu aduno oherwydd y meini prawf gofynnol o ran enillion, yn ogystal â'r gofynion o ran yr iaith Saesneg, a oedd, yn eu barn nhw, yn gwbl afresymol.

Byddai'r ddau ohonynt yn hoffi gweld aduniad teuluol yn cael ei estyn i gynnwys rhieni a brodyr a chwiorydd, a hynny am eu bod yn agos at y bobl hyn yn eu bywydau ac yn ei chael yn anodd byw gyda'r ansicrwydd amdanynt – yn enwedig gan fod rhai ohonynt mewn perygl tebyg i'r hyn a brofodd y gŵr.

6. Diffyg gwasanaethau cymorth

Ar ôl i unigolyn gael hysbysiad o ganiatâd ffoadur, mae yna wedyn gyfnod o bryder cynyddol wrth iddo fynd trwy'r broses symud ymlaen (sef cyfnod pontio lle mae pobl yn symud o gymorth lloches i'r system cymorth a budd-daliadau brif ffrwd) a cheisio llunio'r cais am aduniad teuluol ar yr un pryd.

Pan fo ffoaduriaid yn cael eu hailsefydlu yn y DU, mae awdurdodau lleol yn gwybod pwy sy'n mynd i gyrraedd yn eu hardal, a phryd y byddant yn cyrraedd. Er bod aduno teuluoedd yn llwybr a reolir (sy'n gofyn am fisa), nid yw awdurdodau lleol yn cael gwybod y bydd teulu yn dod. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gallu paratoi ar gyfer teuluoedd sydd wedi cyrraedd trwy'r llwybr aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid, fel y byddent ar gyfer teuluoedd sydd wedi cael eu hadsefydlu. Bydd llawer o'r ffoaduriaid sy'n ceisio nodd i aelodau'r teulu i ymuno â nhw yn oedolion sengl sy'n debygol o fod yn byw mewn llety sengl, dros dro, neu a rennir. Ar adeg pan y dylent fod yn dathlu aduniad teuluol, gall hyn fod yn argyfwng arall i lawer o ffoaduriaid gan eu bod yn wynebu mwy o risg o amddifadedd, digartrefedd, neu orboblogi difrifol yn eu cartrefi.¹⁹ Mae'r risgiau hyn yn rhoi straen ychwanegol ar deuluoedd ar adeg dyngedfennol, wrth iddynt geisio ymgartrefu gyda'i gilydd ar ôl yr hyn a all fod yn flynyddoedd o fyw ar wahân ac o fywyd teuluol wedi'i rwygo.

Mae yna potensial i gymorth teithio y Groes Goch fod yn offeryn paratoadol allweddol i alluogi Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Dyma'r egwyddor ar gyfer y system llwybr carlam yn yr Alban, sydd hefyd wedi creu protocolau ar gyfer atgyfeiriadau tai, lleoedd mewn ysgolion, gan gynnwys gwisg ysgol a phrydau ysgol am ddim, a gofal iechyd.

Argymhellion

Ar lefel y DU:

ADiwygio Rheolau Mewnfudo y DU a defnyddio'r Bil Aelodau Preifat ar gyfer Teuluoedd sy'n Ffoaduriaid²⁰ i:

1. Ehangu'r meini prawf ar gyfer pwy sy'n cyfrif fel 'aelod o'r teulu' i ddibenion aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid fel eu bod yn cynnwys y canlynol:

- perthnasau ifanc sy'n ddibynnol ar yr uned deuluol o ran eu lles ar adeg y cais, gan gynnwys llysbiant a phlant mabwysiedig de facto;
- meibion a merched sy'n oedolion, ac a oedd yn rhan o'r uned deuluol cyn i'r ffoadur ffoi o'i wlad wreiddiol;
- brodyr a chwiorydd sy'n oedolion, nad ydynt wedi ffurfio uned deuluol cyn i'r ffoadur ffoi o'i wlad wreiddiol;
- rhieni;
- partneriaid priod a'u plant sydd wedi ffoi, ac sy'n rhan o'r uned deuluol;
- unrhyw berthynas dibynnol, gan gynnwys lle mae bod ar wahân yn peri risgiau i'w ddiogelwch;
- unrhyw un y mae'r unigolyn sydd wedi cael caniatâd ffoadur neu ddiogelwch dyngarol yn berthynas dibynnol iddo.

2. Caniatâu i blant, y gwelir bod arnynt angen diogelwch rhyngwladol yn y DU, ddod ag aelodau o'r teulu yma o dan y polisi aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid.

3. Ailgyflwyno cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion o aduno teuluoedd sy'n ffoaduriaid. cases.

Ar lefel Cymru:

- 1. Cymorth Cyfreithiol:** Llywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o liniaru effeithiau andwyol polisi'r DU yng Nghymru, a hynny trwy alluogi ffoaduriaid i gael y cyngor cyfreithiol achrededig am ddim sy'n ofynnol ar gyfer achosion cymhleth o aduno teuluoedd, er enghraifft trwy ariannu gweithiwr achos aduno teuluoedd dan oruchwyliaeth Asylum Justice. Bydd y gweithiwr achos hwn yn gallu cyflwyno ceisiadau am aduniadau teuluol a darparu cynrychiolaeth mewn apeliadau yn erbyn penderfyniadau i wrthod ceisiadau am fisâu aduno teuluoedd.
- 2. Cymorth Lleol:** Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru i weithredu protocolau ar gyfer ceisiadau am aduniadau teuluol llwyddiannus fel bod cymorth priodol, gan gynnwys tai dros dro, lleoedd mewn ysgolion a gofal iechyd, ar gael cyn gynted ag y bydd aelodau'r teulu yn cyrraedd.
- 3. Cymorth Ariannol:** Llywodraeth Cymru i sicrhau bod proses ar waith i gael mynediad llwybr carlam i'r Gronfa Cymorth Dewisol pan fydd y teulu'n aduno.

Nodiadau

1. Mae 21.3 miliwn o bobl wedi croesi ffin ac wedi dod yn ffoaduriaid. Mae 40.8 miliwn o bobl wedi cael eu dadleoli yn eu gwledydd eu hunain – Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Wedi'i godi o <http://www.unhcr.org/news/latest/2016/6/5763b65a4/global-forced-displacement-hits-record-high.html>
2. Mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn datgan bod y teulu yn uned sylfaenol mewn cymdeithas, sydd â'r hawl i gael ei diogelu gan gymdeithas a'r Wladwriaeth. Gweler y Cenhedloedd Unedig. Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Wedi'i godi o <http://www.un.org/en/universal-declaration-human-rights/>
3. Ar gael yn Rheolau Mewnffudo Llywodraeth y DU. Cyhoeddwyd gyntaf ar 29 Chwefror 2016; diweddarwyd ddiwethaf ar 3 Ionawr 2017. <https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-part-11-asylum>
4. Am ragor o wybodaeth, gweler: K Pike, V. Cowan, O. Field a J. Potter. (2016). 'How reuniting families can provide solutions to the refugee crisis.' Y Groes Goch Brydeinig. Wedi'i godi ym mis Chwefror 2017, o <http://www.redcross.org.uk/~media/BritishRedCross/Documents/About%20us/RFR%20designed%20brie%20fing%20-%20July%202016.pdf>
5. h.y. partneriaid priod, partneriaid sifil a phartneriaid o'r un rhyw.
6. Tŷ'r Arglwyddi (2017). Ail ddarllenid y Bil Ffoaduriaid (Aduno Teuluoedd). Wedi'i godi ym mis Rhagfyr 2017 o [https://hansard.parliament.uk/lords/2017-12-15/debates/B90C7204-C90C-471D830F-AB8B7BC45F67/Refugees\(FamilyReunion\)Bill\(HL\)](https://hansard.parliament.uk/lords/2017-12-15/debates/B90C7204-C90C-471D830F-AB8B7BC45F67/Refugees(FamilyReunion)Bill(HL))
7. Cymru lle mae pobl sy'n ceisio noddfa yn cael eu croesawu, lle mae eu hamgylchiadau'n cael eu deall, a lle mae eu cyfraniad yn cael ei ddathlu, a hynny pa le bynnag y maent yn mynd.
8. Mae'r data diweddaraf ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref, yn y tabl data ar geiswyr lloches – cyfrol 4: <https://www.gov.uk/government/statistics/immigration-statistics-july-to-september-2017>
9. 'Towards Integration', Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid – adroddiad ar Gynllun Llywodraeth y DU ar Adleoli Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed <http://www.unhcr.org/uk/protection/basic/5a0ae9e84/towards-integration-the-syrian-vulnerable-persons-resettlement-scheme-in.html>
10. Mae'r data diweddaraf ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref, yn y tabl data ar geiswyr lloches – cyfrol 4: <https://www.gov.uk/government/statistics/immigration-statistics-july-to-september-2017>
11. 'Safe but not Settled: The impact of family separation on refugees in the UK', Ymchwil ar y cyd gan Oxfam a'r Cyngor Ffoaduriaid, Ionawr 2018 <https://www.oxfam.org/en/research/safe-not-settled-impact-family-separation-refugees-uk>
12. Sgwrs â Chyfarwyddwr Cyfreithiol Asylum Justice – Ruth Brown, Medi 2017. Ymddiriedolaeth elusenol fach yw Asylum Justice, sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol am ddim i geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru. Mae ganddi restr aros hir o gleientiaid y mae arnynt angen help mewn nifer o feysydd gwahanol a chymhleth sy'n ymwneud â lloches a chyfraith fewnfudo gysylltiedig <http://asylumjustice.org.uk/>
13. Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (2001). 'Protecting the Family: Challenges in Implementing Policy in the Resettlement Context' <http://www.refworld.org/docid/4ae9aca12.html>
14. Adroddiad y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ffoaduriaid (Ebrill 2017), 'Refugees Welcome?' The experience of new refugees in the UK – A report by the All Party Parliamentary Group on Refugees' https://www.refugeecouncil.org.uk/assets/0004/0316/APPG_on_Refugees_-_Refugees_Welcome_report.pdf
15. 'Safe but not Settled: The impact of family separation on refugees in the UK', Ymchwil ar y cyd gan Oxfam a'r Cyngor Ffoaduriaid, Ionawr 2018 <https://www.oxfam.org/en/research/safe-not-settled-impact-family-separation-refugees-uk>
16. Cyflwynodd Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012 doriadau sylweddol i gwmpas cymorth cyfreithiol sifil, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2013. O ganlyniad, dim ond ar fathau penodol o anghydfod sifil y gallwch roi cyngor cyfreithiol (sy'n rhan o gwmpas y Ddeddf). Manylir ar y rhain yn Atodlen 1 i'r Ddeddf <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/schedule/1/enacted>
17. 'Not so straightforward: the need for qualified legal support in refugee family reunion Red Cross 2015' <http://www.redcross.org.uk/~media/BritishRedCross/Documents/About%20us/Not%20so%20straightforward%20refugee%20family%20reunion%20report%202015.pdf>
18. <http://welshrefugeecouncil.org.uk/sites/default/files/news/files/WG%20Asylum%20Rights%20Programme%20Overview.pdf>
19. Adroddiad ymchwil gan y Groes Goch – 'We started life again; Integration experiences of refugee families reuniting in Glasgow 2015' <http://www.refworld.org/pdfid/560cde294.pdf>
20. <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/refugeesfamilyreunionno2.html>